

Cyngor Adnewyddu'r Economi

Yr Adolygiad o'r Cynllun Busnes - Y wybodaeth ddiweddaraf

**Cyflwyniad**

1. Mae'r papur hwn yn rhoi'r newyddion diweddaraf i aelodau'r Cyngor am y cynnydd a wnaed wrth weithredu argymhellion yr Adolygiad o'r Cynllun Busnes.

**Cefndir**

2. Mae Adran 75 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio cynllun yn nodi sut y maent yn bwriadu ystyried buddiannau busnes wrth gyflawni eu swyddogaethau.
3. Lluniwyd fersiwn drafft o Gynllun Busnes Gweinidogion Cymru ("y Cynllun Busnes") ar ôl ymgynghori'n helaeth â Busnes Cymru a TUC Cymru. Gyda chytundeb y Cabinet, cyhoeddwyd y Cynllun yn 2008.
4. Mae'r Cynllun Busnes yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiad, bob dwy flynedd o leiaf, yn nodi sut mae'r cynigion a amlinellir yn y Cynllun Busnes wedi cael eu gweithredu. Rhaid i Weinidogion Cymru osod copi o bob adroddiad a gyhoeddir gerbron y Cynulliad (Cynllun Busnes 2006, Paragraffau 3(6) a 3(7)).
5. Cyflwynwyd yr ail Adolygiad o Weithrediad ac Effaith y Cynllun Busnes yn ffurfiol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ar 27 Mawrth 2013.

**Y Sefyllfa Ddiweddaraf**

6. Nododd yr Adolygiad wyth argymhelliad sy'n cael eu datblygu. Mae'r rhestr atodedig yn nodi'r sefyllfa ddiweddaraf ar gyfer pob un o'r argymhellion.
7. Cynigir y dylid rhoi'r newyddion diweddaraf am y cynnydd a wnaed yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.

<b>Y NEWYDDION DIWEDDARAF AM ARGYMHELLION ADOLYGIAD 2013 O'R CYNLLUN BUSNES</b>		
	<b>Cynnydd</b>	<b>Dyddiad Gorffen</b>
<b>Argymhelliad 1:</b>		
<p>Dylid diweddarau'r Cynllun Busnes. Dylai'r diweddariad gynnwys dangosyddion y gellid eu defnyddio i fesur llwyddiant. Dylai unrhyw ddiweddariad archwilio'r ffyrdd y caiff pob strwythur a sefydlir gan Lywodraeth Cymru ei ystyried yn y prosesau ymgynghori. Dylai Cyngor Adnewyddu'r Economi gytuno ar ddyddiad cau ar gyfer y diweddariad hwn.</p>	<p>Yng nghyfarfod diwethaf Cyngor Adnewyddu'r Economi, cytunwyd y byddai aelodau yn mynegi eu barn ar fformat ac aelodaeth y Cyngor. Bydd fersiwn drafft y Cynllun Busnes yn ymgorffori unrhyw newidiadau y cytunwyd arnynt i strwythur ac amllder cyfarfodydd y Cyngor. Yna caiff hwn ei ddsbarthu i'r Partneriaid Cymdeithasol ac yn amodol ar gytundeb bydd yr ymgynghoriad ffurfiol yn dechrau. Caiff y Cynllun Busnes wedi'i ddiweddarau ei gyflwyno gerbron y Cynulliad Cenedlaethol yn unol â'r gofyniad Statudol.</p>	Yn mynd rhagddo
<b>Argymhelliad 2:</b>		
<p>Dylai Llywodraeth Cymru a phartneriaid cymdeithasol ymrwymo i roi cyhoeddusrwydd i'r Cynllun Busnes a'i egwyddorion sylfaenol.</p>	<p>Mae swyddogion WSPU a Llywodraeth Cymru yn cydweithio i ddatblygu hyn.</p>	Yn mynd rhagddo
<b>Argymhelliad 3:</b>		
<p>Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu a rhannu rhestr a ddiweddarir yn rheolaidd o'r uwch swyddogion arweiniol hynny ym mhob adran sy'n gyfrifol am y Cynllun Busnes yn eu hadran. Bydd y swyddogion hyn yn gyfrifol am sicrhau bod eu hadran yn ymgysylltu'n fwy uniongyrchol â phartneriaid cymdeithasol er mwyn deall sut maent yn gweithredu.</p>	<p>Rhestr wedi'i dosbarthu i aelodau'r Cyngor.</p>	Wedi'i gwblhau

<b>Y NEWYDDION DIWEDDARAF AM ARGYMHELLION ADOLYGIAD 2013 O'R CYNLLUN BUSNES</b>		
<b>Argymhelliad 4:</b>		
Dylid paratoi blaengynllun o faterion ymgynghori a'i roi i randdeiliaid.	Wrthi'n cael ei ddatblygu a bydd yn rhan o rôl yr uwch swyddog Adrannol a enwebwyd sy'n gyfrifol am y Cynllun Busnes.	Yn mynd rhagddo
<b>Argymhelliad 5:</b>		
Pan fo adrannau yn mynd ati i ymgysylltu â rhanddeiliaid, dylent gynnwys Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru (WSPU), neu'r sefydliad olynol, fel rhan o'u proses ymgysylltu fel mater o drefn, er mwyn galluogi'r Uned, neu'r sefydliad olynol, i gefnogi'r partneriaid cymdeithasol fel y bo'n briodol.	Mae hyn bellach yn rhan o rôl yr uwch swyddog Adrannol a enwebwyd	Yn mynd rhagddo a bydd yn rhan o'r priod adroddiadau diweddarau blynyddol.
<b>Argymhelliad 6:</b>		
Dylai swyddogion Llywodraeth Cymru roi adroddiadau diweddarau blynyddol i Gyngor Adnewyddu'r Economi ar weithrediad y Cynllun Busnes ym mhob adran. Dylai Cyngor Adnewyddu'r Economi gytuno ar ddyddiad cau blynyddol ar gyfer yr adroddiadau hyn.	Cytunodd y Gweithgor yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr y dylid dosbarthu'r adroddiadau diweddarau i'r Partneriaid Cymdeithasol ac y dylai unrhyw faterion penodol sy'n deillio o'r adroddiadau gael eu cyflwyno i'r Gweithgor er mwyn eu trafod. Caiff yr adroddiadau eu cyflwyno fel papurau i'w nodi ar gyfer cyfarfod dilynol Cyngor	Mehafin 2014

<b>Y NEWYDDION DIWEDDARAF AM ARGYMHELLION ADOLYGIAD 2013 O'R CYNLLUN BUSNES</b>		
	Adnewyddu'r Economi. Rhagwelir y caiff yr adroddiadau eu cyflwyno gyda phapurau ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor ym mis Mehefin 2014.	
<b>Argymhelliad 7:</b>		
Dylai cyfarfodydd Cyngor Adnewyddu'r Economi ganolbwyntio ar faterion y mae angen penderfynu a gweithredu arnynt. Dylid adolygu cynrychiolaeth Cyngor Adnewyddu'r Economi a'r Gweithgor wrth ddiweddarau'r Cynllun Busnes (Argymhelliad 1) a dylid gwneud mwy o ddarpariaeth i is-grwpiau gynnal cyfarfodydd er mwyn ymdrin â phynciau penodol i'w trafod neu er gwybodaeth.	Yn dilyn trafodaeth yng nghyfarfod mis Hydref o Gyngor Adnewyddu'r Economi ynghylch y fformat a'r aelodaeth yn y dyfodol, caiff yr argymhelliad hwn ei ddiweddarau er mwyn ystyried y ffordd gytûn ymlaen. Adlewyrchir hyn yn y fersiwn ddiwygiedig o'r Cynllun Busnes.	Yn mynd rhagddo
<b>Argymhelliad 8:</b>		
Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod capasiti ar gael a bod y capasiti hwnnw'n gyfrifol am asesu a yw Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol / Aseidiadau o'r Effaith Economaidd wedi rhoi cyfrif priodol o effaith deddfwriaeth arfaethedig ar fusnes ac effaith newidiadau polisi arfaethedig nad oes angen deddfwriaeth arnynt ar fusnes.	Mae gan broses ymgynghori Llywodraeth Cymru ganllawiau clir i swyddogion ar y gofyniad ar gyfer Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol.	Yn mynd rhagddo

